Cofnodion cyfarfod rhif 90
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 4 Hydref 2023

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Andrews | Cadeirydd |
| Tom Crick | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd |
| Ruth McElroy | Aelod o'r Bwrdd Cynnwys |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 90 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ruth McElroy am ran boreol y cyfarfod, ynghyd ag Elinor Williams, Eleanor Marks a Kate Biggs a oedd yn mynychu'r sesiynau tystiolaeth ar Ddarlledu yn y Senedd. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Nododd Aelod, DJ, eu bod wedi sefydlu sefydliad dim-er-elw sy'n rhoi cyngor ar seiberddiogelwch i unigolion. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 a materion a godwyd**<br><br>CYMERADWYWYD y cofnodion, gydag un pwynt o eglurhad gan Aled Eirug a nodwyd ei fod yn absennol o'r cyfarfod pan oedd yn bresennol. | Angen cywiro |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf fel Cadeirydd a diolchodd i holl Aelodau'r Pwyllgor a staff Ofcom Cymru am eu cefnogaeth. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r Cadeirydd blaenorol am ei waith.<br><br>Nododd y Cadeirydd y gallai hyn fod yn gyfle i'r Pwyllgor ailffocysu ei sylw gan ychwanegu bod dau le gwag ar y Pwyllgor yr oedd angen eu llenwi, ac roedd recriwtio eisoes ar y gweill i benodi Aelod newydd o'r Bwrdd ar ran Cymru.<br><br>Cytunodd yr aelodau i gynnal sesiwn ar wahân i egluro eu ffyrdd o weithio fel Pwyllgor er mwyn iddo allu rhoi'r cyngor gorau i Ofcom. | |
| **5. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru**<br><br>Rhoddodd Aelod o'r Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau'r Bwrdd a oedd yn cynnwys y strwythurau diwygiedig yn adrannau Llywodraeth y DU a'u heffaith ar Ofcom.<br><br>Nododd yr Aelod y cynnydd cyflym yn y diddordeb mewn deallusrwydd artiffisial, gan gynnwys y papur arfaethedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Uwchgynhadledd Diogelwch arfaethedig ar Ddeallusrwydd Artiffisial ym Mharc Bletchley. Trafododd Aelodau'r Pwyllgor effaith deallusrwydd artiffisial yng Nghymru a'i effaith bosibl ar y sectorau rydym yn eu rheoleiddio.<br><br>Dywedodd yr Aelod fod y Bwrdd hefyd yn paratoi i'r Bil Diogelwch Ar-lein gael Cydsyniad Brenhinol. | |
| **6. Y wybodaeth ddiweddaraf – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd Cadeirydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Aelod dros Ogledd Iwerddon wedi cyflwyno papur ymlaen llaw ac wedi tynnu sylw at y materion canlynol:<br><br>• Diolchodd i Sian Phipps, yr Aelod o'r Panel ar ran Cymru, yr oedd ei thymor wedi dod i ben ym mis Mehefin. Nododd fod recriwtio yn mynd rhagddo ond y byddai'n rhoi cysgod ar faterion yn ymwneud â Chymru.<br>• O ran diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus, nododd y Cadeirydd bod lle i wella o hyd o ran y cyfathrebu ynghylch y mater. Nododd ei fod wedi cyfarfod â Dr James Davies, Aelod Seneddol, (Y Blaid Geidwadol, Dyffryn Clwyd a Gweinidog Iau yn Swyddfa Cymru). Dywedodd y gallai ymgyrch deledu fel yr un a gynhaliwyd yn Awstralia (Checked, Select, Connect) neu'r un sy'n ymwneud â Newid i'r Digidol dan arweiniad Digital UK fod yn syniad da. Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y ffordd orau o roi gwybod i ddefnyddwyr, gan gynnwys y rheini sydd â llinell dir a dyfeisiau eraill.<br>• Mae'r Panel yn parhau i ganolbwyntio ar fforddiadwyedd a dyled, gydag adroddiadau pellach ar y gweill.<br><br>Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bwriadu gwahodd cynrychiolydd o'r sector telegyfathrebiadau i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn trafod VoIP. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **7. Y wybodaeth ddiweddaraf: Polisi Cyhoeddus**<br>Cafodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddatblygiadau a meysydd polisi Seneddol, gan gynnwys y canlynol:<br>• Cyflwynodd Stephen Darke ei hun fel yr Arweinydd Polisi newydd ar Ddarlledu<br>• Roedd y tymor ar gyfer Cynadleddau Pleidiau wedi mynd heibio heb unrhyw gyfeiriadau pwysig at Ofcom, er bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfeirio at y Bil Diogelwch Ar-lein a Deallusrwydd Artiffisial<br>• Penderfyniad Ofcom ar funudau hysbyseb COSTA, a gafodd ei groesawu gan Aelodau'r Pwyllgor<br>• Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor a oeddem wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad o barodrwydd defnyddwyr o ran diffodd y rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus fel y trafodwyd uchod. Fe wnaeth Stephen Darke addo i ymchwilio ac ymateb i'r Pwyllgor.<br><br>YMATEB: 'Bydd darparwyr galwadau yn ysgrifennu at ddefnyddwyr pan ddaw eu tro nhw i symud. Mae BT wedi dweud y byddant yn cysylltu â chwsmeriaid o leiaf bedair wythnos ymlaen llaw cyn gwneud y newid. Ffordd arall y mae BT yn egluro'r camau sydd eu hangen yn y broses o symud yw drwy ymgyrchoedd hysbysebu ac ar y cyfryngau lleol a rhanbarthol. Mae BT hefyd wedi dweud y bydd ganddo bresenoldeb ar y stryd fawr i ateb cwestiynau cwsmeriaid wyneb yn wyneb.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer gwasanaeth cartref a ffôn newydd BT Digital Voice wedi cael ei chyhoeddi ac mae'n dweud bod BT ar fin gwneud y newid yng Nghymru yng ngwanwyn 2024.' | |
| **8. Adroddiad: Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br>Fe wnaeth Eleanor Marks, Cyfarwyddwr Cymru, dynnu sylw at y canlynol o'i hadroddiad ysgrifenedig, a oedd wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod:<br>• Fe wnaethom gynnal digwyddiad llwyddiannus i randdeiliaid, a oedd yn tynnu sylw at ein Hadroddiad Cyfryngau'r Genedl, gyda phanel o arbenigwyr yn ateb cwestiynau o'r llawr<br>• Yn haf 2023, fe wnaeth y BBC agor Prawf Budd y Cyhoedd ar ei gynigion i ymestyn nifer yr oriau a gynigir gan BBC Radio Cymru fel ei fod yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn ei rinwedd ei hun. Mae'r cynnig nawr yn destun Asesiad Cystadleuaeth gan Ofcom, a fydd yn dod i ben ym mis Hydref, a byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad arall maes o law.<br>• Trafododd yr aelodau y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn. Holodd yr aelodau hefyd am faint sampl y data yn adroddiad Cyfryngau'r Genedl, gan ddadlau bod rhai o feintiau'r sampl yn fach.<br>• Rydym wedi lansio cyfrif Instagram Cymraeg.<br><br>Nododd yr aelodau bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfathrebu ynglŷn â gweithredu'r Bil Diogelwch Ar-lein ledled Cymru. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| **9. Dyfodol Dosbarthu Teledu**<br><br>Esboniodd cydweithwyr fod Ofcom wedi lansio cais am dystiolaeth ar ddyfodol dosbarthu teledu. Yn dilyn yr ymgynghoriad byr, byddwn yn rhoi ein cyngor yn ffurfiol i'r Llywodraeth y flwyddyn nesaf.<br><br>Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd Teledu Daearol Digidol (DTT) i Gymru, a sut bydd cynulleidfaoedd yn parhau i dderbyn gwasanaethau da yn y dyfodol. Fe wnaeth yr aelodau godi pryderon ynglŷn ag argaeledd band eang yng Nghymru a'r angen i gynnwys Cymraeg penodol barhau i fod ar gael yn y dyfodol.<br><br>Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cydnabod y newid cynyddol gan wylwyr i brotocol rhyngrwyd, a chyflwyno Freely gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. | |
| **10. Cynllun Gwaith Arfaethedig 2024/25**<br><br>Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Gwaith drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Bydd y pedwar maes blaenoriaeth yn aros yr un fath:<br><br>• Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno<br>• Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi<br>• Byw bywyd mwy diogel ar-lein<br>• Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach<br><br>Eleni byddwn yn canolbwyntio ar sut byddwn yn cyflawni ein meysydd blaenoriaeth ac effaith ein gwaith ar randdeiliaid. Fel rhan o'n hymgynghoriad, byddwn yn cynnal digwyddiad i randdeiliaid ac yna datganiad terfynol yn y gwanwyn.<br><br>Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y ffordd orau o adlewyrchu'r hyn mae Ofcom Cymru yn ei wneud yng nghyd-destun y Cynllun Gwaith, gan gofio bod bron y cyfan o waith Ofcom yn cael effaith yng Nghymru.<br><br>Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i gymryd rhan yn y broses ac i gyfnewid safbwyntiau, ac roeddent yn teimlo bod y digwyddiad i randdeiliaid yn llwyfan da ar gyfer hyn.<br><br>Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor fod Dyfodol Teledu Daearol Digidol yn fater pwysig i randdeiliaid yng Nghymru, yn ogystal â'r nifer sy'n defnyddio cysylltiad band eang teilwng a mynediad ato. Mae effaith y Bil Cyfryngau hefyd o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor a chynulleidfaoedd yng Nghymru. | |
| **11. Adroddiad Blynyddol ac Adolygiad o Gynulleidfaoedd y BBC**<br><br>Esboniodd cydweithwyr ein bod yn bwriadu cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar y BBC yn nes ymlaen eleni. Eleni, rydym yn cynnal dull thematig newydd ac yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r Gwledydd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd yr adroddiad yn darparu asesiad o berfformiad y BBC yn erbyn pob Diben Cyhoeddus. Rydym hefyd yn cynnal ymchwil i grwpiau economaidd-gymdeithasol DE a'u bodlonrwydd â'r BBC.<br><br>Croesawodd Aelodau'r Pwyllgor y ffocws dyfnach ar y Gwledydd, a chynnwys gwahanol themâu, gan gynnwys ar Gomisiynu yn y Gwledydd. Nododd yr aelodau hefyd bwysigrwydd yr ymchwil i grwpiau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol.<br><br>Pwysleisiodd Aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd gallu dod o hyd i gynnwys Cymraeg ar BBC iPlayer a BBC Sounds a'r gallu i bersonoli eu hamser gwylio a gwrando. O ran yr ymchwil, roedd rhaglenni lleol a chynrychiolaeth ar y sgrin yn faterion allweddol a nodwyd gan y grwpiau ffocws. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Roedd yr Aelodau'n awyddus i weld sut mae Cymru'n cymharu â gwledydd eraill y DU mewn meysydd cymharol allweddol. | |
| **12. Cysylltu'r Gwledydd 2023** i'w gofnodi.<br><br>Rhoddodd cydweithwyr gipolwg ar gynnwys yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd sydd i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Y gobaith oedd gwneud y ddogfen yn ddogfen berthnasol a diddorol i gynulleidfaoedd. Mae'r themâu trosfwaol yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Defnyddio rhwydweithiau newydd<br>• Defnydd ffeibr llawn a 5G yn ogystal â'i gyflwyno.<br>• Diffodd rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus a 2G/3G.<br>• Band Eang Lloeren<br><br>Byddai astudiaeth achos yn y ddogfen hefyd. | |
| **13 Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys**<br><br>Cafwyd diweddariad llafar gan yr Aelod o'r Bwrdd Cynnwys yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Cynnwys a gynhaliwyd yn gynharach yn yr wythnos. Fe wnaeth hi amlygu rhai o'r materion allweddol yr oedd y Bwrdd Cynnwys yn eu trafod:<br>• Adnoddau ar gyfer y Bil Diogelwch Ar-lein, ei weithrediad ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol a rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid<br>• Rôl Ofcom wrth roi'r Cod Darlledu ar waith a'r angen i sicrhau bod uniondeb y broses yn cael ei gadw bob amser<br>• Y Bil Cyfryngau a'r broses seneddol<br>• Roedd y Bwrdd Cynnwys wedi cael cyflwyniad ar y dadreoleiddio a'i effaith ar wrandawyr, gan gynnwys gofynion y Gymraeg. | |
| **14 Trafod Dull o Weithio**<br><br>Cafodd trafodaeth ar y ffordd y mae'r Pwyllgor yn gweithio ei gohirio a'i haildrefnu fel cyfarfod ar wahân a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth 17 Hydref 2023 9:30am-10:30am. | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br><br>Dim<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br><br>28 Tachwedd 2023 | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd
[remove for published minutes]